

# Amser i gyflwyno'r cartrefi iawn yn y lleoedd iawn

Maniffesto gan y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau



## Mae Dyfodol Tai Cymru'n banel polisi ymgynghorol y mai ei gyfansoddiad yw aelodau newydd/ifainc sydd â buddiant yn nyfodol y proffesiwn tai yng Nghymru, sydd wedi cael ei sefydlu a'i gefnogi gan CIH Cymru.

Mae Panel Dyfodol Tai Cymru'n rhoi eu cefnogaeth lawn i'r angen am ymgorffori'r hawl i gartref digonol yng nghyfraith Cymru. Mae gennym argyfwng tai yng Nghymru; nid yw niferoedd y cartrefi newydd sy'n wirioneddol fforddiadwy yn cyrraedd targedau, nid yw dewis o ran tai ar gael mwyach, ac mae'r dyddiau pan fu diogelwch o ran cartrefi'n i'w gweld yn atgof pell. Y gofid yw bod yr argyfwng hwn yn araf yn mynd yn 'rhy anodd' i'w drwsio - allwn ni ddim adael i hynny ddigwydd.

Er mwyn bodloni'r ymrwymiad y bydd yr Hawl i Gartref yn ei greu, mae Dyfodol Tai Cymru'n gofyn bod maniffestos yr holl bleidiau'n gwneud gwir ymrwymiad i **gynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol ar draws Cymru a darparu'r cartrefi iawn yn y lleoedd iawn.**

I gyflawni hyn mae'n rhaid i'r ffordd yr ydym yn cyllido, cyflwyno ac yn asesu'r galw am Dai Cymdeithasol newid - mae'n amser i weithredu!





## Ymrwymo'r lefel gywir o gyllid

Mae galw am gynnydd sylweddol yn nifer y cartrefi ar draws Cymru dros y 5 mlynedd nesaf, dim ond 2,485 o gartrefi fforddiadwy a adeiladwyd bob blwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2016 a 2019 (Inside Housing 2020). Dywed ymchwil wrthym:

- **Fod angen o leiaf 3,500 o gartrefi fforddiadwy BOB BLWYDDYN ar draws Cymru dros y 5 mlynedd nesaf (StatsWales2020). Er hynny, byddem yn dadlau bod angen i'r ddarpariaeth fynd ymhellach na hyn i fynd i'r afael â'r argyfwng tai o ddifri a darparu cartref sydd yn diwallu anghenion pawb yn wirioneddol.**
- **Dengys arolwg o 2018 yr oedd o leiaf 60,569 o aelwydydd ar restrau aros am gartref. (Llyw.cymru2020)**

Mae'n rhaid i ni gofio'r ffaith nad yw amcangyfrifon o'r angen am gartref yn fwy na hynny - 'amcangyfrifon' - ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio fel targedau ynddynt eu hunain. Felly, er eu bod yn ddangosydd defnyddiol, mae'n rhaid i'r cyfrifoldeb aros gyda'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru i fod yn llawer mwy uchelgeisiol, ac mae hynny'n dechrau gyda chyllid.

Rydym yn gofyn bod yr holl fanifestos yn ymrwymo i:

- **Gynyddu lefel y cyllid grant yn y dyfodol i gefnogi'r galw a sicrhau y caiff ei flaenoriaethu'n effeithiol yn genedlaethol ac yn rhanbarthol i ddiwallu'r angen am gartrefi cymdeithasol, a chymryd goblygiadau cost unrhyw safonau tai newydd i ystyriaeth.**





# O'r diwedd, darparu'r cartrefi iawn yn y lleoedd iawn

Er gwaetha'r argymhellion allweddol yn yr adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy yn 2019, nid yw galw lleol yn cael ei fodloni o hyd; Mae'r rhagamcaniadau o ran galw tua 2,000 o gartrefi'n uwch na'r amcangyfrifon adeiladu presennol (Ystadegau Cymru 2019). Noda'r adroddiad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar anghenion tai y bydd angen 6,200 - 8,300 o unedau tai ychwanegol bob blwyddyn rhwng 2019 a 2024. Mae'r Adolygiad Tai Fforddiadwy wedi gwneud sylwadau ar ansawdd gwael y data ar lefelau cenedlaethol a lleol ac wedi cynghori bod angen i hyn gael ei wella. Dadl y panel yw y tybir bod gwybodaeth leol yn hanfodol ar gyfer darparu'r cartrefi IAWN yn y lleoedd IAWN.

Rydym yn gofyn bod yr holl Faniffestos yn ymrwmo i:

- **Alinio gwasanaethau i ddiwallu'r angen lleol am gartrefi, gan ddefnyddio gwybodaeth leol ac ystadegau o safon**
- **Gweithredu Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) clir a phriodol ar draws Cymru i ddeall y gofynion presennol a sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn cysylltu â deilliannau LHMA.**
- **Sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol ddull gorfodi cyson a phendant o ran cynlluniau Adran 106 er mwyn cyflwyno canran gynyddol o dai cymdeithasol ar bob datblygiad newydd.**





# Ymrwymo i'r buddsoddiad iawn i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd

Mae 27,000 o anheddau preswyl sector preifat sy'n wag am yr hir dymor yng Nghymru - dyma un ran yn unig o'r darlun. Mae angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu adnoddau i ddod â'r cartrefi gwag hyn yn ôl i ddefnydd mewn ffordd mor effeithiol â phosib. Nododd ymchwil Tyfu Tai Cymru (rhan o CIH Cymru) yn y maes hwn y canlynol:

- **Dim ond 14% o ymatebion gan awdurdodau lleol a nododd fod eu hymagwedd at gartrefi gwag yn cynnwys strategaeth a chynllun gweithredu. (TTC, 2020)**
- **Nododd gwaith arolwg pellach gyda gweithwyr tai proffesiynol awdurdodau lleol gan Tyfu Tai Cymru fod pwysau o ran llwyth gwaith a diffyg mynediad i arbenigedd yn rhwystrau sylweddol i gyflwyno'r gwasanaeth**

Mae'r Senedd yn credu y gall Llywodraeth Cymru gefnogi awdurdodau lleol i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r adroddiad Eiddo Gwag gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Senedd a gyhoeddwyd yn 2019, sydd â'r teitl 'Eiddo gwag', yn rhestru nifer o argymhellion. Rydym yn cefnogi'r argymhellion hyn, fodd bynnag rydym yn teimlo bod yn rhaid cael ymrwymiad i fuddsoddi mewn gwasanaethau Cartrefi Gwag Awdurdod Lleol er mwyn goresgyn y rhwystrau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Rydym yn gofyn bod yr holl Fanifestos yn ymrwymo i:

- **Cynyddu cyllid refeniw a chyfalaf i gyflwyno a gwella'r gwasanaeth cartrefi gwag yn unol â'r adroddiad Eiddo Gwag o 2019.**



# Galluogi'r gwasanaethau cefnogi IAWN i ddod â chysgu allan I BEN

Yn y cyfrif o gysgwyr allan cenedlaethol, amcangyfrifwyd bod 405 o bobl yn cysgu allan ar draws Cymru - mae hyn yn 405 o bobl yn ormod. Rydym yn awr yn gweld nad yw'r ystadegau hyn yn ddarlun cyflawn o'r nifer cywir o bobl sy'n cysgu allan ar ein strydoedd. (LlywCymru2019)

Ar ôl y pandemig COVID-19, bod digartrefedd yn fater y gallwn ei ddatrys gyda'n gilydd, ac y gallai'r diwedd fod mewn golwg os byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn defnyddio dull rhagweithiol dros y tymor hwy. Cynhyrchodd y pandemig ymateb cyflym, gan orfodi'r anghenraid o gyllid ychwanegol a gwaith partneriaeth a helpodd i gael pobl oddi ar y strydoedd, er hynny er gwaethaf ymrwymiad presennol Llywodraeth Cymru "nad oes angen i unrhyw un ddychwelyd i'r stryd", amlygodd adroddiad diweddar gan y BBC yr oedd 101 o bobl wedi dychwelyd i'r strydoedd (BBC2020). Mae angen strategaeth tymor hir arnom sydd wedi'u symbylu gan ymrwymiad cryf pellach gan Lywodraeth Cymru.

I sicrhau nad ydym yn taflu llwyddiannau'r pandemig i ffwrdd, mae angen buddsoddi yn y gefnogaeth a'r gwasanaethau IAWN ar sail tymor hir i gefnogi pobl i gynnal eu tenantiaethau. Boed yn ddull 'Tai yn Gyntaf' neu 'Ailgartrefu Cyflym', dylai atal digartrefedd fod yn allweddol i'n Llywodraeth yng Nghymru, ynghyd â chefnogi llesiant ein cenedlaethau presennol ac yn y dyfodol.

Rydym yn gofyn bod yr holl Fanifestos yn ymrwmo i:

- **Gynyddu adnoddau ar gyfer y maes gwaith hwn yn nhermau refeniw a chyfalaf, gan wneud ymrwymiad hir dymor i lefelau ariannu i alluogi gwasanaethau i wneud cynllun o ddifri at y dyfodol.**
- **I sicrhau bod gwasanaethau cefnogi'n cael eu mwyafu a'u bod ar gael i'r rhai y mae arnynt eu hangen yn nhermau ymgysylltu cyn tenantiaethau a chefnogaeth cynnal tenantiaethau.**





## Dolenni:

[www.insidehousing.co.uk/news/news/welsh-government-pumps-extra-24m-into-affordable-housing-as-building-target-deadline-looms-65100#:~:text=An%20average%20of%202%2C485%20affordable,the%20target%20to%20be%20reached.](http://www.insidehousing.co.uk/news/news/welsh-government-pumps-extra-24m-into-affordable-housing-as-building-target-deadline-looms-65100#:~:text=An%20average%20of%202%2C485%20affordable,the%20target%20to%20be%20reached.)

<https://llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-sail-2019-2019-based>

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/casgliad-o-dystiolaeth-fframwaith-datblygu-cenedlaethol-2020-2040.pdf>

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12797/cr-ld12797%20-w.pdf>  
<http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12797/cr-ld12797%20-e.pdf>

<https://llyw.cymru/cyfrif-cenedlaethol-o-gysgu-allan-tachwedd-2019>

<https://statscymru.llyw.cymru/v/l4kO>

[www.bbc.co.uk/news/uk-wales-54888766](http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-54888766)

